YSGOL MORGAN LLWYD

Ym mhob llafur y mae elw

Celfyddydau Mynegiannol

Iechyd a Lles

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Dyniaethau

Y Byd o'n Cwmpas

Mathemateg a Rhifedd

# PROSIECTAU BL 7

@ymll_wrecsam

@YsgMorganLlwyd

Ysgol Morgan Llwyd Wrecsam

01978 315050

Ysgol Morgan Llwyd, Cefn Road,
Wrecsam, LL13 9NG

www.ysgolmorganllwyd.cymru

bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk

# CYFLWYNIAD

Wrth ichi dderbyn yr adroddiadau cyntaf ar gynnydd eich plentyn, hoffwn gymryd y cyfle i esbonio mwy am brosiectau blwyddyn 7.

Mae llawer o'r wybodaeth isod eisoes ar wefan yr ysgol yn yr adran Cwricwlwm, ac os hoffech wybod mwy am unrhyw agwedd o'r prosiectau, cofiwch gysylltu â'r ysgol.

**Mr Iwan Owen-Ellis**
*Pennaeth Gweithredol*





# MANYLION CYSWLLT

01978 315050

Ysgol Morgan Llwyd, Cefn Road,
Wrecsam, LL13 9NG

www.ysgolmorganllwyd.cymru

bocspost@ysgolmorganllwyd.
wrexham.sch.uk

@ymll_wrecsam

@YsgMorganLlwyd

Ysgol Morgan Llwyd Wrecsam




# BETH YW
# PWRPAS Y PROSIECTAU?

Mae gan y prosiectau ddau brif bwrpas iddynt. Y cyntaf yw helpu'r disgyblion i drosglwyddo rhwng addysg gynradd ac uwchradd.

Tiwtoriaid blwyddyn 7 sy'n arwain y prosiectau ac mae treulio 10 gwers yr wythnos ar ben cyfnodau cofrestru yn caniatáu iddynt ddod i adnabod pob unigolyn yn eu dosbarthiadau yn dda. Maent hefyd yn caniatáu i'r disgyblion ddod i adnabod eu tiwtoriaid a chael rhywun y gallant droi atynt o'r dechrau.

Mae treulio rhan o'r dydd yn gwneud gwaith pynciol ac yna ran arall ar waith prosiect thematig yn debycach i drefn diwrnod yn y cynradd. Mae hefyd yn golygu nad oes raid iddynt symud o gwmpas eu hysgol newydd gymaint.




# BETH YW
# PWRPAS Y PROSIECTAU?

Ail bwrpas y prosiectau yw cryfhau a datblygu'r sgiliau y mae'r disgyblion eu hangen i lwyddo yn y cwricwlwm uwchradd.

Pa bynnag feysydd y bydd y disgyblion am arbenigo ynddynt yn nes ymlaen yn eu gyrfa addysg, mae'n hanfodol fod ganddynt afael dda ar sgiliau fel y gallu i gyfathrebu, sgiliau rhifedd a sgiliau llythrennedd digidol. Mae datblygu sgiliau fel datrys problemau, gweithio gydag eraill a dyfalbarhau hefyd yn bwysig i lwyddo mewn bywyd a'r byd gwaith.

Mae'r pandemig unwaith eto wedi cryfhau ein hawydd i weithio ar y sgiliau hyn gan fod disgyblion wedi colli cyfleoedd i'w datblygu ar ddiwedd eu haddysg gynradd. Prin yw'r cyfle y mae rhai disgyblion wedi ei gael i siarad Cymraeg, ac felly mae cryn bwyslais yn y prosiectau ar drafod, cydweithio a chyflwyno gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

# Y PROSIECTAU
# AR WAITH

Bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn 7 prosiect yn ystod y flwyddyn, gyda phob un yn gwyro tuag at un o feysydd dysgu'r cwricwlwm. Bydd pob dosbarth yn dechrau ar brosiect eu tiwtor dosbarth yn gyntaf cyn symud ymlaen bob 5 wythnos i'r prosiect nesaf.

| | Tymor 1 | Tymor 1 | Tymor 2 | Tymor 2 | Tymor 2 & 3 | Tymor 3 | Tymor 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **7A** | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Dyniaethau | Iechyd a Lles | Y Byd o'n cwmpas | Celfyddydau Mynegiannol | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Mathemateg a Rhifedd |
| **7B** | Mathemateg a Rhifedd | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Dyniaethau | Iechyd a Lles | Y Byd o'n cwmpas | Celfyddydau Mynegiannol | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
| **7C** | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Mathemateg a Rhifedd | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Dyniaethau | Iechyd a Lles | Y Byd o'n cwmpas | Celfyddydau Mynegiannol |
| **7D** | Celfyddydau Mynegiannol | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Mathemateg a Rhifedd | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Dyniaethau | Iechyd a Lles | Y Byd o'n cwmpas |
| **7E** | Y Byd o'n cwmpas | Celfyddydau Mynegiannol | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Mathemateg a Rhifedd | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Dyniaethau | Iechyd a Lles |
| **7G** | Iechyd a Lles | Y Byd o'n cwmpas | Celfyddydau Mynegiannol | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Mathemateg a Rhifedd | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Dyniaethau |
| **7H** | Dyniaethau | Iechyd a Lles | Y Byd o'n cwmpas | Celfyddydau Mynegiannol | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Mathemateg a Rhifedd | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu |

# CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

## *Cyflwyniad:*

Y Cwestiwn Mawr: I ba raddau mae unigolion yn llunio hunaniaeth gwlad?

Yn y prosiect cei gyfle i ddod yn gyfranwr mentrus a chreadigol gan ymarfer sgiliau gweithio annibynnol a chydag eraill. Cei gyfle i greu deunydd digidol a chyfle i ymarfer dy sgiliau perfformio.

## *Profiadau Penigamp:*

- Tasgau drama yn y Stiwdio drama
- Cyflwyno'r dasg derfynol yn fyw

## *Sut i baratoi?*

Gêm geirfa'r uned!

## *Yn y prosiect fe fyddi'n dysgu:*

- Beth yw hunaniaeth person a pha bethau sy'n cyfrannu at hunaniaeth.
- Cynllunio, creu a golygu fideo o dy hoff beth yn y byd
- I weithio'n annibynnol ar dasg ddigidol
- Astudio hunaniaeth Cymru a Wrecsam
- Defnyddio sgiliau darllen ac ymchwil i gasglu gwybodaeth mewn ffair wybodaeth ar unigolion o Gymru
- Edrych ar sut mae dau artist o Gymru yn cyfleu eu hunaniaeth.
- Defnyddio sgiliau gwrando er mwyn llunio tasg o waith cartref
- Cynllunio, llunio a gwella darn o waith ysgrifennu
- Edrych ar gerddoriaeth draddodiadol a modern Cymru
- Defnyddio rhaglen gyfrifiadurol er mwyn cyfansoddi cerddoriaeth ddigidol
- Cyd-weithio mewn grwpiau i greu cyflwyniad terfynol 5 munud o hyd am unigolyn sydd wedi dylanwadu hunaniaeth Cymru. Bydd angen cynnwys holl elfennau'r prosiect yn y cyflwyniad.
- Dysgu sut mae gwerthuso dy waith

## *Asesu:*

1. Fideo o dy hoff beth yn y byd
2. Gwerthusiad o waith Ogwyn Davies
3. Cyd-weithio, ymarfer a chyflwyno yn y dasg derfynol

| *Gradd Ymdrech* | *Gradd Llwyddiant* |
|---|---|
| A= Ymdrech ardderchog | 1 = Wedi cyflawni MPLL i safon uchel |
| B = Ymdrech dda | 2 = Wedi cyflawni mwyafrif MPLL |
| C = Ymdrech foddhaol | 3 = Wedi cyflawni rhai MPLL |
| CH = Dim digon o ymdrech | 4 = Heb gyflawni MPLL y dasg |

# DYNIAETHAU

## *Cyflwyniad:*

Yn y prosiect cei gyfle i ddod yn ddinesydd egwyddorol, gwybodus sy'n dangos empathi ac yn dod i ddeall mwy am rai o broblemau'r byd o'n cwmpas. Cei gyfle i greu deunydd digidol mewn grŵp.

## *Profiadau Penigamp:*

- Dadl ddosbarth am brofiad ffoadur
- Cynllunio, ffilmio a golygu ffilm fer am ffoadur yn Wrecsam.

## *Sut i baratoi?*

Darllena am brofiad ffoadur!

## *Yn y prosiect fe fyddi'n dysgu:*

- Beth yw ffoadur.
- Ymarfer sgiliau, sganio a gwneud nodiadau er mwyn casglu gwybodaeth am ffoaduriaid yng Nghymru
- Mynegi barn ar lafar mewn dadl dosbarth
- Ymarfer sgiliau gwerthfawrogi ffynonellau drwy edrych nôl mewn hanes
- Ystyried teimladau ffoadur gan ddangos empathi ac aeddfedrwydd
- Llunio ymson o safbwynt ffoadur gan adolygu nodweddion ymson
- Ymarfer sgiliau cyfrifo drwy weithio allan pa mor hir mae'n cymryd ffoadur i gyrraedd Cymru.
- Dysgu am ragfarn, gwahaniaethu a hiliaeth a sut allwn ni ddod yn ddinasyddion egwyddorol wrth archwilio'r pynciau hyn
- Cyd-weithio mewn grwpiau i gynllunio, ffilmio a golygu fideo byr yn darlunio taith ffoadur i Gymru. Bydd angen cynnwys holl elfennau'r prosiect yn y ffilm.

## *Asesu:*

1. Darllen a chasglu gwybodaeth
2. Dangos aeddfedrwydd ac empathi wrth drafod pwnc dwys
3. Cyd-weithio, ymarfer a chyflwyno yn y fideo terfynol

| *Gradd Ymdrech* | *Gradd Llwyddiant* |
|---|---|
| A= Ymdrech ardderchog | 1 = Wedi cyflawni MPLL i safon uchel |
| B = Ymdrech dda | 2 = Wedi cyflawni mwyafrif MPLL |
| C = Ymdrech foddhaol | 3 = Wedi cyflawni rhai MPLL |
| CH = Dim digon o ymdrech | 4 = Heb gyflawni MPLL y dasg |

# GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

### *Cyflwyniad:*

Y Cwestiwn Mawr: Ydw i'n wyddonydd?

Yn y prosiect cei gyfle i ddod yn ddysgwr uchelgeisiol, galluog sy'n defnyddio data'n effeithiol ac yn ymgymryd ag ymchwiliadau gwyddonol. Fe fyddi'n datblygu creadigrwydd drwy ail-lunio a datrys problemau.

### *Profiadau Penigamp:*

- Cynllunio a chwblhau arbrawf yn annibynnol
- Cyflwyno'r canlyniadau mewn Ffair Wyddoniaeth

### *Sut i baratoi?*

Ymarfera dy eirfa wyddonol!

### *Yn y prosiect fe fyddi'n dysgu:*

- Beth yw gwyddoniaeth gan ddarganfod y dull gwyddonol.
- Ymarfer sgiliau ymchwilio drwy gasglu gwybodaeth am wyddonwyr adnabyddus.
- Casglu data mewn amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys mesur tymheredd, amser, pellter a cherrynt.
- Dod i ddeall sut mae defnyddio data'n effeithiol gan ei gyflwyno mewn amrywiaeth o ffurfiau, dadansoddi a gwerthuso.
- Datblygu chwilfrydedd gwyddonol wrth gynllunio a gweithredu arbrofion ymarferol yn annibynnol ac mewn grŵp.
- Cyd-weithio mewn grwpiau i gynllunio, cwblhau a gwerthuso arbrawf terfynol.
- Ymarfer sgiliau cyflwyno wrth gynnal Ffair Wyddoniaeth yn arddangos canlyniadau'r arbrawf.

### *Asesu:*

1. Casglu a dadansoddi data mewn arbrofion ymarferol
2. Cydweithio i lunio ymchwiliad a chyflwyniad terfynol

| *Gradd Ymdrech* | *Gradd Llwyddiant* |
|---|---|
| A= Ymdrech ardderchog | 1 = Wedi cyflawni MPLL i safon uchel |
| B = Ymdrech dda | 2 = Wedi cyflawni mwyafrif MPLL |
| C = Ymdrech foddhaol | 3 = Wedi cyflawni rhai MPLL |
| CH = Dim digon o ymdrech | 4 = Heb gyflawni MPLL y dasg |

# IECHYD A LLES

## *Cyflwyniad:*

Y Cwestiwn Mawr: Sut mae goroesi taith gerdded o Gaerdydd i Wrecsam?

Yn y prosiect cei gyfle i ddod yn unigolyn iach a hyderus sy'n bwyta'n iach, yn adeiladu lles meddyliol a chorfforol ac yn deall sut i ddod o hyd i gymorth os oes angen. Byddi hefyd yn rhoi cyngor i eraill am hyn.

## *Profiadau Penigamp:*

- Miri Mercher - tasgau ymarferol tu allan yr ystafell ddosbarth
- Creu a recordio podlediad i roi cyngor i eraill ar sut mae byw'n iach.

## *Sut i baratoi?*

Ymchwilia am ddeiet iach yma!

## *Yn y prosiect fe fyddi'n dysgu:*

- Sut i gynllunio taith gan edrych ar gyfrifo pellter
- Am ba faeth sydd ei hangen ar gyfer byw bywyd iach.
- Creu byrbryd maethlon
- Dysgu beth yw iechyd meddwl ac ymddygiad pobl tuag ato.
- Dod yn unigolyn iach drwy astudio a datblygu strategaethau ymdopi iach
- Dechrau edrych ar sut mae hyrwyddo lles emosiynol
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol pob dydd Mercher e.e. ioga, cymorth cyntaf, taith gerdded
- Cyd-weithio mewn grwpiau i gynllunio, ymarfer a recordio podlediad yn cyflwyno gwybodaeth am les emosiynol a strategaethau ymdopi.

## *Asesu:*

1.Rysáit byr bryd iach
2.Cydweithio i lunio podlediad

| *Gradd Ymdrech* | *Gradd Llwyddiant* |
|---|---|
| A= Ymdrech ardderchog | 1 = Wedi cyflawni MPLL i safon uchel |
| B = Ymdrech dda | 2 = Wedi cyflawni mwyafrif MPLL |
| C = Ymdrech foddhaol | 3 = Wedi cyflawni rhai MPLL |
| CH = Dim digon o ymdrech | 4 = Heb gyflawni MPLL y dasg |

# IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

## *Cyflwyniad:*

Y Cwestiwn Mawr: Pa ddulliau fedrwn ni ddefnyddio er mwyn taro targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?
Yn y prosiect cei gyfle i ddod yn gyfrannwr creadigol sydd ag ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau cenedlaethol yng Nghymru a thu hwnt. Fe fyddi'n dod i ddeall mwy am ieithoedd lleiafrifol a safle Cymru yn y byd.

## *Profiadau Penigamp:*

- Gwaith ymarferol creu gêm fwrdd
- Datblygu sgiliau digidol drwy greu gwefan gyffrous

## *Sut i baratoi?*

Edrycha ar yr erthygl yma am ieithoedd lleiafrifol y byd!

## *Yn y prosiect fe fyddi'n dysgu:*

• Ymchwilio un o syniadau Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
• Dysgu'r hanes tu ôl i rai o enwau lleoedd mwyaf diddorol Cymru.
• Ystyried beth yw manteision bod yn amlieithog a'r effaith y mae'n ei gael ar ddatblygiad yr ymennydd.
• Dechrau meddwl sut mae unigolion yn dysgu iaith newydd.
• Mewn timau, llunio gêm greadigol er mwyn helpu dysgwyr Cymraeg.
• Ymchwilio gemau ieithyddol ar lein
• Dechrau ymgyfarwyddo â Google Sites er mwyn adeiladu gwefan
• Gweithio'n annibynnol er mwyn cynllunio a chreu gwefan sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn rhoi cyngor i ddysgwyr.

## *Asesu:*

1. Gwaith tîm wrth greu gem i ddysgwyr iaith

2. Cynllunio a chreu gwefan ar gyfer dysgwyr Cymraeg

| *Gradd Ymdrech* | *Gradd Llwyddiant* |
|---|---|
| A= Ymdrech ardderchog | 1 = Wedi cyflawni MPLL i safon uchel |
| B = Ymdrech dda | 2 = Wedi cyflawni mwyafrif MPLL |
| C = Ymdrech foddhaol | 3 = Wedi cyflawni rhai MPLL |
| CH = Dim digon o ymdrech | 4 = Heb gyflawni MPLL y dasg |

# MATHEMATEG A RHIFEDD

## Cyflwyniad:

Y Cwestiwn Mawr: Pam ddylwn i fuddsoddi yn dy fusnes?

Yn y prosiect cei gyfle i ddod yn ddysgwr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu defnyddio creadigrwydd a sgiliau rhif er mwyn llunio busnes mewn sefyllfa byd go iawn.

## Profiadau Penigamp:

- Cyflwyno i'r dosbarth am fathemategwyr adnabyddus
- Cyflwyniad 'Dragon's Den'

## Sut i baratoi?

Gwylia'r clip yma o raglen 'Dragon's Den'

## Yn y prosiect fe fyddi'n dysgu:

- Ymchwilio mathemategwyr adnabyddus, gan weld ambell gysylltiad â Chymru.
- Edrych ar beth sy'n gwneud gwaith tîm llwyddiannus
- Dysgu beth yw busnes a'r gwahanol fathau o fusnesau sydd yn ardal Wrecsam
- Cynllunio ymchwil farchnata er mwyn darganfod beth fydd yn boblogaidd
- Dod i adnabod dulliau hysbysebu busnesau
- Edrych ar arian
- Darganfod beth yw cyllideb a chynllunio cyllideb bersonol ar gyfer busnes
- Cyd-weithio er mwyn cyflwyno eich busnes i'r dosbarth ar ffurf cystadleuaeth 'Dragon's Den'.
- Ceisio perswadio'r panel i ddewis dy syniad di.

## Asesu:

1.Cynllunio busnes a'i holl elfennau

2.Cyd-weithio er mwyn cyflwyno'r syniad i'r dosbarth ar ffurf 'Dragon's Den'

| *Gradd Ymdrech* | *Gradd Llwyddiant* |
|---|---|
| A= Ymdrech ardderchog | 1 = Wedi cyflawni MPLL i safon uchel |
| B = Ymdrech dda | 2 = Wedi cyflawni mwyafrif MPLL |
| C = Ymdrech foddhaol | 3 = Wedi cyflawni rhai MPLL |
| CH = Dim digon o ymdrech | 4 = Heb gyflawni MPLL y dasg |

# Y BYD
# O'N CWMPAS

## *Cyflwyniad:*

Y Cwestiwn Mawr: Sut mae gofalu am y byd o'n cwmpas?

Yn y prosiect cei gyfle i ddod yn ddinesydd moesol, gwybodus sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac yn gwybod sut i reoli risg mewn gwaith ymarferol. Cei dreulio amser tu fewn a thu allan y dosbarth.

## *Profiadau Penigamp:*

- Cyflwyno syniad sut i weddnewid YMLl
- Dod yn athro am y dydd!

## *Sut i baratoi?*

Beth am wylio un o raglenni 'Garddio am mwy' ar S4C?

## *Yn y prosiect fe fyddi'n dysgu:*

- Dechrau cymryd sylw o'r byd sydd o'n cwmpas yn Ysgol Morgan Llwyd.
- Dysgu sut mae gweithio'n ddiogel yn yr awyr agored
- Meddwl am ffyrdd gwahanol i weddnewid yr ysgol a chasglu barn cyfoedion am eich hoff syniad.
- Darganfod beth yw taith planhigyn
- Rhoi tro ar blannu planhigion gan arbrofi ble a mewn beth y mae planhigyn yn cael ei blannu
- Ymchwilio i hanes naturiaethwr enwog o Gymru, Alfred Russel Wallace.
- Darganfod mwy am arwyr amgylcheddol fel Greta Thunberg a David Attenborough.
- Mynd ati i greu arwr amgylcheddol dy hunan
- Dod yn athro am y dydd!
- Cyd-weithio er mwyn cyflwyno gwers i'r dosbarth am elfen o'r amgylchedd. Bydd y wers yn para rhwng 5-10 munud.

## *Asesu:*

1.Ffair Wybodaeth syniadau gweddnewid

2.Cyd-weithio er mwyn cyflwyno'r wers i'r dosbarth ar elfen o'r amgylchedd.

| *Gradd Ymdrech* | *Gradd Llwyddiant* |
|---|---|
| A= Ymdrech ardderchog | 1 = Wedi cyflawni MPLL i safon uchel |
| B = Ymdrech dda | 2 = Wedi cyflawni mwyafrif MPLL |
| C = Ymdrech foddhaol | 3 = Wedi cyflawni rhai MPLL |
| CH = Dim digon o ymdrech | 4 = Heb gyflawni MPLL y dasg |

# SGILIAU ASTUDIO A GLOYWI IAITH

## *Cyflwyniad:*

Yn y pythefnos gyntaf, fe gei gyfle i ddod yn ddysgwr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ymdopi ag heriau'r ysgol uwchradd. Fe fyddi'n cael dy gyflwyno i'r ysgol ac yn cael cyfle i ateb unrhyw gwestiwn sydd gennyt.

## *Profiadau Penigamp:*

- Dy gyfle di i baratoi at dy yrfa yn Ysgol Morgan Llwyd

## *Sut i baratoi?*

Gwylia'r fideo am ddechrau'r ysgol uwchradd

## *Yn y prosiect fe fyddi'n dysgu:*

***Sgiliau Astudio*:**

- Safon a disgwyliadau Ysgol Morgan Llwyd
- Sut i drefnu dy hunan a sut i greu amserlen waith
- Sut i sicrhau meddylfryd twf cadarnhaol
- Sgiliau darllen addas ar gyfer profion ac arholiadau
- Sut i wneud nodiadau
- Ble i fynd am gymorth

***Gloywi Iaith*:**

- Ystyried beth sydd angen cofnodi yn dy lyfr ar ddechrau pob gwers.
- Sicrhau hyder wrth gofnodi'r dyddiad
- Darllen yr amser yn gywir
- Defnyddio 'ti' a 'chi' yn addas
- Sut i waredu idiomau Seisnig o waith ysgrifennu
- Ateb cwestiynau'n gywir yn y Gymraeg

## *Asesu:*

1.Dealltwriaeth o sgiliau astudio mewn prawf sydyn
2.Rheolau gramadegol syml

| *Gradd Ymdrech* | *Gradd Llwyddiant* |
|---|---|
| A= Ymdrech ardderchog | 1 = Wedi cyflawni MPLL i safon uchel |
| B = Ymdrech dda | 2 = Wedi cyflawni mwyafrif MPLL |
| C = Ymdrech foddhaol | 3 = Wedi cyflawni rhai MPLL |
| CH = Dim digon o ymdrech | 4 = Heb gyflawni MPLL y dasg |

YSGOL MORGAN LLWYD
Ym mhob llafur y mae elw

# MANYLION
# Y PROSIECTAU

***Gwyddoniaeth – Pa mor bwysig yw gwyddoniaeth wrth ddatrys problemau?***

Yn y prosiect hwn, ceir digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud gwaith ymarferol yn y labordy i ddarganfod sut mae cynllunio a chynnal profion i ddatrys problemau. Mae'r pwyslais ar faes troseddeg wrth i'r disgyblion ddefnyddio technegau gwyddoniaeth fforensig i ddatrys problem droseddol a chyflwyno eu tystiolaeth mewn achos llys. Mae'r prosiect yn gyfle i ddatblygu sgiliau gwyddonol a rhifedd tra hefyd yn annog gweithio annibynnol a datrys problemau.

***Iaith – Sut mae sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?***

Nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050 sydd y tu cefn i'r prosiect hwn. Yn ogystal ag edrych ar hanes yr iaith Gymraeg, mae cyfle i feddwl am bwrpas a manteision dysgu iaith newydd a beth yw'r heriau sy'n ein hwynebu wrth wneud hynny. Mae'r pwyslais ar ddatblygu pob agwedd o sgiliau llythrennedd y disgyblion; siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae angen bod yn greadigol wrth ddyfeisio gêm i helpu dysgu iaith a sgiliau digidol wrth greu gwefan i ddysgwyr Cymraeg.

# MANYLION Y PROSIECTAU

***Iechyd a Lles – Fedri di oroesi am chwe wythnos efo Bear Grylls?***

Mae sgiliau goroesi yn ganolog i'r prosiect hwn ac mae hynny'n cynnwys pethau fel cyfeiriannu, cymorth cyntaf a gwneud penderfyniadau. Yn ogystal â hyn, caiff y disgyblion eu haddysgu ar sut i edrych ar ôl eu hiechyd corfforol a meddyliol. Mae tasgau amrywiol yn edrych ar elfennau fel deiet, cwsg, meddylfryd twf ac ymdopi efo problemau. Mae 'Miri Mercher' yn gyfle hwyliog i wella ffitrwydd a deall pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd i iechyd a lles. Ar ddiwedd y prosiect, bydd y disgyblion yn defnyddio'r hyn maent wedi ei ddysgu i wneud cwrs cyfeiriannu a chwrs rhwystrau, a chyflwyno gwybodaeth am iechyd a lles.

***Dyniaethau – Sut brofiad fyddai symud i Wrecsam i ffoadur?***

Mae'r prosiect yn cyflwyno'r disgyblion i thema ffoaduriaid. Edrychir ar agweddau hanesyddol y thema cyn troi at y sefyllfa ffoaduriaid yn Syria. Rhoddir hyn gyfle i edrych ar agweddau daearyddol y wlad a'u taith i Gymru. Mae cyfle i edrych ar eu hardal drwy lygad dieithryn a dysgu mwy am yr hanes lleol. Wrth ystyried profiad ffoadur, mae cyfle i drafod agweddau ar hawliau dynol, rhagfarn a hiliaeth, ac empathi at eraill. Yn y prosiect hwn, mae pwyslais ar ddatblygu sgiliau darllen a darllen map yn ogystal â gwerthuso ffynonellau a barn eraill. Uchafbwynt y prosiect fydd cynhyrchu fideo yn cyfleu'r hyn maent wedi'i ddysgu.

MANYLION
# Y PROSIECTAU

***Rhif – Ai chi yw'r Alan Sugar nesaf?***

Mae'r prosiect rhifedd yn cyflwyno disgyblion blwyddyn 7 i fyd busnes ac entrepreneuriaeth. Byddant yn cael cyfle i edrych ar faterion fel cyllidebau, marchnata ac ymchwil y farchnad. Bydd pwyslais ar waith tîm wrth i grwpiau feddwl am gynnyrch i'w werthu a meddwl am y ffordd orau o roi eu syniadau ar waith. Uchafbwynt y prosiect fydd cyflwyno'u syniad i weddill y dosbarth neu ei werthu mewn ffair. Mae'r pwyslais ar sgiliau rhifedd a defnyddio'r hyn a ddysgir yn y gwersi mathemateg mewn cyd-destun bywyd go iawn. Mae cyfathrebu effeithiol yn hollbwysig i lwyddiant y dasg.

***Celfyddydau Perfformio – I ba raddau mae unigolion yn llunio hunaniaeth gwlad?***

Cyfunir Drama, Cerdd a Chelf yn gelfydd yn y prosiect hwn wrth i ddisgyblion gael eu harwain i feddwl am eu hunaniaeth, beth sy'n eu gwneud yn unigryw a dylanwad eu gwlad a'u bro arnynt. Mae cyfle i astudio sut mae arlunwyr a chyfansoddwyr o Gymru yn cyfleu eu hunaniaeth yn ogystal â Chymry enwog eraill. Mae sgiliau cyflwyno a pherfformio'r disgyblion yn ganolog i'r cyflwyniad terfynol sy'n uchafbwynt i'r prosiect.

Mae llawer o waith wedi'i wneud i greu'r prosiectau hyn. Hoffwn ddiolch i'n harweinwyr prosiect am eu gwaith wrth gynllunio prosiectau defnyddiol a llawn hwyl sy'n sicrhau bod disgyblion blwyddyn 7 yn mwynhau'r profiad o symud i ysgol uwchradd.

# SYMUD O UN **PROSIECT I'R LLALL**

Bydd disgyblion yn symud i brosiect newydd bob chwe wythnos. Ar ddiwedd pob prosiect, bydd cyfle iddynt gofnodi yn eu 'Llyfryn Llwyddiant' sy'n eu hannog i ystyried sut mae eu sgiliau yn datblygu, beth maent wedi llwyddo i'w wneud a pha sgiliau fydd angen canolbwyntio arnynt yn y prosiect nesaf.

Bydd pob arweinydd prosiect yn rhannu gwybodaeth efo'r arweinydd nesaf am y disgyblion gan drafod eu hanghenion unigol a sut maent yn dysgu orau.



# ASESU GWAITH A
# CHYNNYDD Y DISGYBLION

Tra bod pynciau eraill yn parhau i ddefnyddio lefelau i gofnodi cyrhaeddiad y disgyblion, mae'r prosiectau'n gyfle i symud tuag at ddull newydd Cwricwlwm i Gymru o asesu. Bydd y dull newydd hwn o asesu yn fwy holistig ac yn canolbwyntio ar ddatblygiad y disgybl drwy'r 'Camau Cynnydd'. Ceir 5 cam cynnydd o 3-16 oed, gyda chamau cynnydd gwahanol ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad a phob sgil trawsgwricwlaidd e.e. rhifedd, llythrennedd, llythrennedd digidol. Amcangyfrifwn y bydd y mwyafrif o ddisgyblion blwyddyn 7 yn gweithio ar neu thuag at gam cynnydd 3. Yn yr adroddiad byr sydd newydd ei gyhoeddi ar Go4School, defnyddir yr allwedd isod:

***Ar waith – heb gael cyfle i ymarfer y sgil eto h.y. heb fod yn y prosiect yna eto.***

***Dechrau datblygu – yn dechrau datblygu ar rai nodweddion o gam cynnydd 3.***

***Datblygu – yn datblygu mwy o hyder ar nodweddion o gam cynnydd 3.***

***Sicr – yn dangos sicrwydd ar sawl nodwedd o gam cynnydd 3.***

***Rhagori – yn rhagori ar elfennau o gam cynnydd 3 ac yn anelu am gam cynnydd 4.***

Fel y nodwyd uchod, mae pob prosiect yn canolbwyntio ar sgiliau penodol, felly nid yw'n fwriad ceisio asesu popeth ym mhob project. Bydd cyrhaeddiad academaidd y disgyblion yn parhau i gael ei asesu yn y pynciau traddodiadol sydd ar amserlen y disgybl.

# GWERTHUSO'R **PROSIECTAU**

Yn ystod wythnos monitro'r ysgol ddiwedd Tachwedd, rhoddwyd pwyslais ar werthuso gwerth a llwyddiant y prosiectau hyd yma. Cafodd pob disgybl gyfle i roi eu barn mewn holiadur a chynhaliwyd trafodaeth gyda chynrychiolwyr dosbarth blwyddyn 7.

Cafodd yr Uwch Dîm Rheoli gyfle i graffu ar gynlluniau gwaith, gwersi a gwaith y disgyblion a chynhaliwyd trafodaeth efo'r arweinwyr prosiect. Roedd yr ymateb yn bositif iawn gyda'r mwyafrif o ddisgyblion yn dweud eu bod yn mwynhau'r prosiectau, lleiafrif yn dweud eu bod yn eu mwynhau ychydig, a neb yn dweud nad oeddent yn eu mwynhau o gwbl.

Mae'r adborth yn cadarnhau bod y prosiectau wedi helpu'r disgyblion i setlo yn yr ysgol gyda'r disgyblion a'r tiwtoriaid yn gytûn eu bod yn adnabod ei gilydd yn dda erbyn hyn. Mae'r pwyslais ar siarad a chydweithio wedi helpu'r disgyblion i ddod i adnabod ei gilydd ac adfer eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Wrth symud ymlaen, rydym am geisio gwneud y disgyblion yn fwy ymwybodol o'r sgiliau sy'n cael eu datblygu a chryfhau gallu'r disgyblion a'r tiwtoriaid i asesu cynnydd yn y sgiliau hynny.

# BETH FYDD YN **DIGWYDD YM MLWYDDYN 8**

Wrth inni ddechrau cynllunio amserlen blwyddyn 8, ein bwriad ar hyn o bryd yw parhau i gynnig prosiectau ar amserlen y disgyblion, ond i raddau llai. Ein bwriad yw cynnig tua 3-4 gwers yr wythnos.

Hoffem ddatblygu prosiectau a fydd yn canolbwyntio ar themâu sydd ddim yn cymryd rhan amlwg o fewn cynnwys pynciau 'traddodiadol', er enghraifft, arian a chyllid personol; gyrfau a'r byd gwaith; gwleidyddiaeth; codio a mwy. Byddwn yn ceisio barn disgyblion, staff, rhieni, arbenigwyr addysg a chyflogwyr wrth benderfynu ar gynnwys y prosiectau, eu pwrpas, a'r dulliau addysgu ac asesu.

# EICH **LLAIS CHI**

Os oes gennych unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar y prosiectau presennol neu syniadau am brosiectau ar gyfer y dyfodol, cofiwch gysylltu â ni drwy e-bostio **bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.gov**. Byddem yn gwerthfawrogi eich adborth, boed hynny'n gadarnhaol neu'n adeiladol.

YSGOL MORGAN LLWYD

Ym mhob llafur y mae elw

01978 315050

Ysgol Morgan Llwyd, Cefn Road,
Wrecsam, LL13 9NG

www.ysgolmorganllwyd.cymru

bocspost@ysgolmorganllwyd.
wrexham.sch.uk

@ymll_wrecsam

@YsgMorganLlwyd

Ysgol Morgan Llwyd Wrecsam